PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 157 Rhif 25 Mehefin 20, 2024 50c.

## GWEINIDOGION AR GRWYDR YN SIR GÂR

Yn ddiweddglo, ac yn un o uchafbwyntiau rhaglen Cymdeithas Gweinidogion Bro'r Preseli, oedd ein pererindod yng ngogledd-ddwyrain Sir Gaerfyrddin ar 11 Mehefin. Cawson ein tywys ar y daith, yn ddiogel ym mws Cwmni Dyffryn Taf, a than gyfarwyddyd Guto Prys ap Gwynfor, ar hyd ffyrdd mân, culion a serth, i fannau cyfarwydd yng nghynefin Guto yn ardal ei febyd yn Llangadog a Bethlehem Dyffryn Ceidrych. Cawsom fwynhau golygfeydd ysblennydd a dysgu am hanes cyfoethog yr ardal o ddyddiau cynnar y seintiau Celtaidd, Dewi, Teilo a Brynach hyd at ddyddiau y diwydiant calch ar ben y Mynydd Du.



### Efengyl Teilo

Wedi gadael Caerfyrddin, a chael ein hatgoffa am gestyll y Cymry yn nyffryn Tywi, cawsom y stop cyntaf yn eglwys Teilo Sant yn Llandeilo lle mae yna arddangosfa yn adrodd hanes Llyfr Efengylau Teilo sy'n dyddio o'r 8fed ganrif ac yn perthyn i'r gymuned grefyddol a'r fynachlog sefydlwyd yno gan Teilo Sant, a fu'n ddisgybl i Dewi Sant. Mae Llyfr Efengylau Teilo yn un o drysorau cywrain a diwylliannol ac ysbrydol Cymru, sydd i'w gymharu gyda Llyfr Kells, Iwerddon ac Efengylau Lindisfarne, sy'n perthyn i'r un cyfnod. Adroddir yr hanes ar y byrddau arddangos yn llawr tŵr eglwys Teilo Sant a gellir gweld y tudalennau a'r cloriau lliwgar i'r efengylau ar sgrin gyfrifiadurol. Roedd yn hyfryd hefyd i weld fel y mae'r hen eglwys wedi ei moderneiddio mor gelfydd gyda grisiau yn cyfleu coron ddrain Calfaria yn arwain i ystafelloedd yn llofft yr eglwys.

### Hanes cyfoethog

Wedi egwyl am goffi, aethom yn ein blaen nes cyrraedd pentref Trap a syllu ar gadernid castell Carreg Cennen, cyn ymlwybro trwy ffyrdd mân y wlad, gan gael ein cyfareddu gydag enwau hen ffermydd a'r enwau yn tystio i hanes cyfoethog yr ardal. Daethom allan wrth droed y Mynydd Du, ger Tro'r Gwcw, gan gerdded i weld yr odynau calch, olion y diwydiant calch a fu mewn bri i mewn i'r 20fed ganrif. Wrth gofio am yr amaethwyr fu'n cyrchu i'r mynydd o bell ac agos i gael calch yn wrtaith, clywsom yn helaeth gan Guto am weithrediadau gwrthryfel Beca yn yr ardal, ymgyrchoedd fu'n brwydro am gyfiawnder i ffermwyr yn y 18fed ganrif trwy ddryllio tollbyrth yn yr ardal ac amddiffyn hawliau'r werin yn wyneb gormes landlordiaid. Cawsom ginio yn yr awyr agored, wrth droed y Mynydd Du, pob un wedi dod gyda'i becyn bwyd, wedi gweld a syllu ar y rhaeadr galchfaen odidog a rhyfeddu at ysblander cwm Sawdde wrth edrych i lawr ar bentref Gwynfe. A rhyfeddu hefyd yn ogystal at gymaint o hen dafarndai arferai fod ar hyd y ffordd o Langadog i'r Mynydd Du.



*Mwynhau picnic ganol haf ar y Mynydd Du!*

*parhad ar dudalen 2*

## Y DYN DDANGOSODD Y DDAEAR I NI

Ar noswyl Nadolig 1968, fe wnaeth Bill Anders gymryd y llun mwyaf trawiadol yn hanes dynoliaeth pan oedd yn beilot ar *Apollo 8*, y lloeren gyntaf i hedfan o gwmpas y lleuad gyda chriw ar ei bwrdd. Yn drasig iawn, ac eironig braidd, cafodd Anders, ag yntau'n 90 oed, ei ladd ar ôl i'r awyren fechan roedd e'n ei llywio blymio i'r ddaear yn y môr ger glannau talaith Washington yn gynharach y mis hwn. Ond bydd y llun a dynnodd yn deyrnged fythol iddo.



### Dal y foment

'Fe ddaethom yr holl ffordd yma i archwilio'r lleuad, a'r peth pwysicaf wnaethom ei ganfod oedd y ddaear,' meddai Bill Anders. Wrth ddisgrifio'r foment dywedodd eu bod nhw'n hedfan tuag at yn ôl, ac wyneb i waered, o gwmpas y lleuad pan welodd e fflach o liw glas trwy gornel ei lygad. 'Roedd e'n sioc,' meddai, 'i weld y blaned ryfeddol, brydferth a lliwgar hon yn codi dros orwel llwyd a llwm y lleuad.' Bloeddiodd y criw o dri, 'Edrychwch ar hwnna!' Cydiodd Anders mewn camera â ffilm lliw i dynnu'r llun cafodd ei anfarwoli fel 'Earthrise.'

### Diwrnod y Ddaear



Dywedir mai'r llun hwn oedd bennaf gyfrifol am ysgogi'r syniad yng nghynhadledd UNESCO y flwyddyn ganlynol i gynnal Diwrnod y Ddaear bob blwyddyn i hybu'r angen i ofalu am y blaned. Ers 1970 cynhaliwyd Diwrnod y Ddaear yn flynyddol ar 22 Ebrill, gyda thema wahanol bob blwyddyn. Eleni, Planed v Plastig ydoedd, gan dynnu sylw at effaith ddinistriol yr holl blastig sy'n cael ei daflu mewn i'r moroedd glas yn llun rhyfeddol Bill Anders.

## GWEINIDOGION AR GRWYDR YN SIR GÂR – parhad

**Cyrraedd y Garn Goch**

Wedi teithio drwy Langadog, a chlywed fel y llosgwyd delw o Watcyn Wyn gan y pentrefwyr, aethom yn ein blaen i bentref Myddfai a chlywed am chwedl Llyn y Fan Fach a Meddygon Myddfai gan ymweld â'r hen eglwys yng nghanol y pentref lle ceir carreg fedd wrth borth yr eglwys i David Jones, yr olaf ymhlith disgynyddion Meddygon Myddfai.

Aethom ymlaen wedyn i dref hynafol Llanymddyfri, dim ond bras clywed am y Ficer Prichard a gweld y cerflun arian yn coffáu Llywelyn ap Gruffudd wrth droed y castell a'r gofeb newydd a hardd i gofio am gyfraniad William Williams, Pantycelyn.

Ar ôl paned cyflym yng nghaffi'r West End, yn ôl â ni i gyfeiriad Llangadog er mwyn cyrraedd Garn Goch gan ymweld â'r gofeb yno sy'n coffáu Gwynfor Evans, tad Guto, ac aelod seneddol cyntaf Plaid Cymru. Nid yw'n syndod bod Guto yn hanesydd lleol sy'n adnabod hanes ardal ei febyd mor dda ac yntau'n fab i'w dad. Clywsom gan Guto mai Garn Goch oedd un o hoff lecynnau ei dad, ac y byddai Gwynfor yn ymweld yn fynych yng nghwmni ei briod a'i blant, gan gerdded i fyny'r Garn Goch er mwyn syllu ar ehangder Sir Gaerfyrddin o ben y garn ac adrodd am hanes y sir wrth syllu i wahanol gyfeiriadau a chofio am y gwroniaid fu'n gysylltiedig â Llanddeusant, Llanymddyfri, Talyllychau, tref hynafol Llandeilo Fawr ac Arglwyddiaeth yr Arglwydd Rhys yn y ddeuddegfed ganrif. Wedi cael blas ar wrando Guto'n traethu, cerddasom i ben y garn gan fwynhau'r olygfa banoramig oddi yno a'n swyno gan yr holl hanes oedd o'n hamgylch. Mor bwysig yw cofio'r hen enwau a chadw'n fyw yr hanes cyfoethog sy'n gysylltiedig â'r Mynydd Du, neu a rhoi iddo ei hen enw Moel Gornach, Caer Godolor, yr enw gynt ar y Garn Goch, a Llwch Sawdde, yr hen enw ar Lyn y Fan Fach. Mor hyfryd oedd clywed Guto yn ein cyfareddu gyda'i wybodaeth am ei gynefin ac ardal ei febyd.



*Guto ar bwys carreg goffa ei dad*

Daeth y dydd i ben wrth i ni fwynhau pryd gyda'r hwyr yn nhafarn y Plough yn Rhos-maen. Cinio blasus a chymdeithas braf yng nghwmni'n gilydd ar hyd y dydd.

**Emyr Gwyn Evans**

# Tadau: Joseff ac Iesu

*Dyma ail ran erthygl Gwilym Wyn am dadau, gan gyfeirio at Joseff.*

**Cyfeiriadau at Joseff fel tad**

Mae nifer o adnodau sy'n cyfeirio at Iesu fel mab Joseff yn yr Efengylau. Dyma ran o'r llinach yn ôl Luc: 'Yr oedd yn fab, yn ôl y dybiaeth gyffredin i Joseff, fab Eli.' [Luc 3: 22b] Yna, yn Ioan, dywedir: '... Iesu, mab Joseff o Nasareth.' [Ioan 1:45b]. Sylwer hefyd ar ymateb y gynulleidfa i ddysgeidiaeth Iesu yn ei synagog leol yn Nasareth: ' "Onid mab y saer yw hwn? Onid Mair yw ei fam ef, ac Iago a Joseff a Simon a Jwdas yn frodyr iddo? Ac onid yw ei chwiorydd i gyd yma gyda ni?" ' [Mathew 13: 55]. Yn ôl Luc 4: 22 yr ymateb oedd, ' "Onid mab Joseff yw hwn." ' Dywed Ioan fod yr Iddewon yn grwgnach am Iesu: ' "Onid hwn yw Iesu, mab Joseff? Yr ydym ni'n adnabod ei dad a'i fam. Sut y gall ef ddweud yn awr, 'Yr wyf wedi disgyn o'r nef'?" ' [Ioan 6: 42]



**Genedigaethau o forwyn tu allan i'r Beibl**

Honnir bod rhai o ymerawdwyr Rhufain, yn arbennig Awgwstws Cesar, wedi eu geni yn wyrthiol. Yn hen ddiwylliant y Rhufeiniaid a'r Groegiaid anrhydeddwyd unrhyw ferch oedd wedi rhoi genedigaeth i blentyn a hithau'n parhau i fod yn forwyn (virgin). Mae genedigaethau gwyrthiol yn gyffredin mewn mytholeg ac mewn crefyddau eraill ar wahân i Iddewiaeth a Christnogaeth. Cyfeirir at ymyrraeth oruwchnaturiol gan eu duw yn ôl eu cred a'u traddodiad. Er enghraifft, y duw Zoroaster, Bwda, Krishna. Ganwyd Attis, y duw Phrygo (Rhufeinig), o'r forwyn Nana, ar 25 Ragfyr. Fe'i lladdwyd ond fe atgyfododd. Honnir hefyd fod Plato wedi ei eni o forwyn.

Ar sail yr honiadau amrywiol hyn o ffynonellau eraill am nifer o enedigaethau gwyrthiol ar wahân i ddehongliad Mathew o sgrôl Eseia wedi ei gyfieithu i'r Groeg, cawn yr argraff mai modd i anrhydeddu personau pwysig a dylanwadol oedd awgrymu eu bod wedi eu geni o wyryf. A ddylem felly eu dehongli yn llythrennol biolegol mewn oes fwy goleuedig yn wyddonol sydd yn deall gymaint mwy am DNA a chromosomau?

**Dryswch**

Mae'r capeli a'r eglwysi sydd â chredo swyddogol yn disgwyl bod yr aelodau yn arddel ac yn credu'n llythrennol yn y geni gwyrthiol o forwyn. Beth bynnag yw ein hymateb personol i'r credoau eglwysig hynny, fe ddylem barchu ac anrhydeddu Joseff fel tad oedd wedi mabwysiadu Iesu, neu fel tad biolegol.

**Parchu Joseff**

Mae'n drist i feddwl nad oedd Joseff wedi ei barchu yn ddigonol yn ôl tystiolaeth y Testament Newydd. Dim un gair wedi ei ddyfynnu o'i enau a dim sôn hyd yn oed am ei farw a'i angladd. Diolch ei fod yn ŵr cyfiawn, ufudd i gyngor angylion (negesyddion) ar fwy nag un achlysur ac wedi cael rhan go bwysig fel tad ym magwraeth Iesu. Cofiwn hefyd am dadau ein hoes sydd efallai wedi eu dibrisio ac wedi cael cam yn eu bywydau, er iddynt wneud eu gorau yn eu swyddogaethau tadol. Am dadau pur a mamau mwyn, O Dad, diolchwn.

Yr Adran
Gydenwadol

MEHEFIN 20 2024 RHIF 173

# Ny Ako – yn dod â diwylliant Madagascar i Gymru



Grŵp o gerddorion dan faner Undeb y Gair ym Madagascar yw Ny Ako (sy'n golygu 'Yr Eco'). Mae'n cynnwys oddeutu 13 o bobl sydd â phrofiad o berfformio a chyflwyno cyngherddau mewn gwahanol leoliadau. Trwy gerddoriaeth draddodiadol, dawns a chân, maen nhw'n arddangos diwylliant Madagasgaidd ar ei orau.

Gwirfoddolwyr yw'r perfformwyr i gyd, gyda llawer ohonyn nhw'n ennill bywoliaeth mewn meysydd cwbl wahanol. Mae Ny Ako yn gyfle iddyn nhw rannu'r neges Gristnogol a'u brwdfrydedd at fywyd drwy eu teithiau rheolaidd ym Madagascar ac yn rhyngwladol.

Maen nhw'n ymweld â Chymru fel rhan o'u taith yn Ewrop, sydd yn cynnwys Ffrainc, Gwlad Belg, Luxembourg, yr Almaen a'r Swistir. Tra maen nhw yma yng Nghymru, fe fyddan nhw'n cynnal dros 20 o gyngherddau ac yn ymweld ag amryw o ysgolion. Cymerwch gip ar y rhestr cyngherddau isod a gweld a oes un o fewn cyrraedd i chi. Chewch chi mo'ch siomi!

Bydd mynediad am ddim i'r cyngherddau, a bydd stondinau o gynnyrch crefft traddodiadol o Fadagascar ar werth ynddyn nhw.

## Cyngherddau:

**Dydd Sadwrn, 15 Mehefin, 7yh:** Eglwys y Crwys, EBC, 77 Heol Richmond, Caerdydd, CF24 3AR

**Dydd Sul, 16 Mehefin, 7yh:** Eglwys Unedig Llanfair, Penrhys, CF43 3RH

**Dydd Mawrth, 18 Mehefin, 7yh:** Eglwys Ddiwygiedig Unedig Beulah, 1A Beulah Rd, Caerdydd, CF14 6LT

**Dydd Mercher, 19 Mehefin, 7yh:** Eglwys y Bedyddwyr. Blaenycwm, 56 Halifax Terrace, Treherbert, Treorci, CF42 5SU

**Dydd Gwener, 21 Mehefin, 7:30yh:** Eglwys y Bedyddwyr, Broad Haven, Marine Road, Broad Haven, Hwlffordd, SA62 3JS

**Dydd Sadwrn, 22 Mehefin, 7yh:** Eglwys Bresbyteraidd Aberhonddu, Camden Arms, 21 Watton, Aberhonddu, LD3 7ED

**Dydd Sul, 23 Mehefin, 5yh:** Neuadd Dyfi, Aberdyfi, LL35 0NR

**Dydd Llun, 24 Mehefin, 7yh:** Capel Seion (EBC), Heol yr Orsaf, Llanrwst, LL26 0BT

**Dydd Mawrth, 25 Mehefin, 7yh:** Eglwys y Santes Fair, Conwy, LL32 8LD

**Dydd Mercher, 26 Mehefin, 7yh:** Eglwys Unedig Seilo, Llandudno, LL30 2SY

**Dydd Gwener, 28 Mehefin, 7yh:** Ebeneser, Eglwys y Bedyddwyr, Ffordd Glanrafon, Yr Wyddgrug, CH7 1PA

**Dydd Sul, 30 Mehefin, 6yh:** Canolfan Gymunedol Tregynon, Tregynon, SY16 3EH

Dydd Mawrth, 2 Gorffennaf, 4yh: Canolfan Cristnogol y Gilgant, Heol Milford, Y Drenewydd, SY16 2DZ

**Dydd Iau, 4 Gorffennaf, 7yh:** Eglwys Bresbyteraidd Caersŵs, Main St, Caersŵs, SY17 5EN

**Dydd Gwener, 5 Gorffennaf, 7yh:** Eglwys St Nicholas, Trefaldwyn, SY15 6PT

**Dydd Sadwrn, 6 Gorffennaf, 7yh:** Neuadd y Pentref, Yr Ardd-lin, Llanymynech, SY22 6PT

**Dydd Sul, 7 Gorffennaf, 7yh:** Yr Institiwt, Llanfair Caereinion, SY21 0RY

**Dydd Mawrth, 9 Gorffennaf, 8:45yb:** Cymanfa Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Aberystwyth

**Dydd Mercher, 10 Gorffennaf, 7yh:** Eglwys Ddiwygiedig Unedig, Ffordd y Fan, Caerffili, CF83 1JZ

**Dydd Gwener, 12 Gorffennaf, 7yh:** Eglwys Ddiwygiedig Unedig Christ Church, Petts Wood, Tudor Way, Orpington, BR5 1LH

**Dydd Sadwrn, 13 Gorffennaf, 7:30yh:** Capel Moreia, Leytonstone, Llundain, E11 1HR

**Dydd Sul, 14 Gorffennaf, 3yp:** Eglwys Gymraeg Jewin, 70 Fann Street, Llundain, EC1Y 0SA

# Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru
# Adroddiad y Llywydd, Tachwedd 2023–Mai 2024

**Rwyf wedi bod yn falch o'ch cynrychioli a helpu'r llais anghydffurfiol i gael ei glywed yn y ffyrdd canlynol:**

1. Ysgrifennu neges y Nadolig ar y cyd ag Archesgob Cymru ac Archesgob Caerdydd.
2. Mynychu cyfarfod o arweinwyr eglwysi enwadol Cymru a drefnwyd gan Archesgob Cymru.
3. Cael sgyrsiau gyda'u harweinwyr am gynulleidfa'n ymuno â'r Cyngor.
4. Cymryd rhan ym myfyrdod Radio Wales Dydd Gwener y Groglith gydag Archesgob Cymru ac Archesgob Caerdydd.
5. Sgyrsiau am y Llywydd nesaf.
6. Mynychu digwyddiadau coffáu Diwrnod Cofio'r Holocost yn y Deml Heddwch.
7. Mynychu digwyddiad trosglwyddo 'Croes Cymru' (adroddiad isod).
8. Mynychu Gwasanaeth Dydd Gŵyl Dewi yng Nghaerdydd.
9. Bod yn rhan o grŵp WhatsApp Cyngor Rhyng-ffydd Cymru.

*Simon Walkling*

## Croes Cymru

Roedd gan Hywel Dda groes oedd yn cynnwys crair o'r wir groes, ac mae'n bosibl ei fod wedi ei chludo yn ôl o'i bererindod i Rufain yn 928. Yr enw arni oedd y Groes Naid. Cafodd ei chadw yn y teulu a'i throsglwyddo o un genhedlaeth i'r nesaf, ond wedi marwolaeth Llywelyn ap Gruffudd a dienyddio'i frawd Dafydd, fe'i cymerwyd gan Edward I yn 1283. Fe'i rhoddwyd i Gapel San Siôr, Windsor, gan Edward III a diflannodd ar ôl i Edward VI ei symud i Dŵr Llundain.

Mae'r syniad o greu 'Croes Cymru' fodern wedi arwain at lunio croes sy'n cynnwys rhan o'r groesbren a gludwyd gan y Santes Helena, mam Cystennin, yn ôl o'i phererindod i'r Wlad Sanctaidd, gan gredu ei bod yn grair o'r wir groes. Rhoddodd y Pab y darn hwn yn anrheg i'r Brenin Charles, ac fe gafodd ei gynnwys gan y gof arian Michael Lloyd yn y groes a luniodd i arwain gorymdaith coroni'r Brenin Charles.



George Stack, Simon Walkling ac Andrew John

Yn gynharach eleni, mynychodd Simon Walkling, Llywydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru, ddigwyddiad yn Neuadd Goldsmith, lle derbyniodd Archesgob Cymru y groes hon i'w chadw yng Nghymru. Roedd George Stack, Cyn-archesgob Caerdydd, hefyd yn bresennol, i gydnabod gwahanol rannau'r teulu Cristnogol yng Nghymru.

Dywedodd Simon, 'Roedd yn hynod ddiddorol cwrdd â Michael, oedd wedi gwneud y groes. Dywedodd yntau fod gweithio ar groes yn gwneud ichi fyfyrio ar y croeshoelio, sy'n gofyn rhai cwestiynau i chi.'



Ar un ochr i'r groes mae patrwm Celtaidd, â'r crair yn y canol. Ar yr ochr arall mae geiriau Dewi Sant. Mae'r groes wedi'i gosod yn sownd i'r gwaelod â bolltau, sy'n adlewyrchu bywyd diwydiannol Cymru, ond ym mhen pob bollt mae carreg waed i'n hatgoffa o glwyfau Iesu ar y groes. Mae'n symbol eciwmenaidd, ac ar ôl cyfnod yn Eglwys Gadeiriol Bangor, y gobaith yw y gall fynd ar daith o amgylch mannau eraill yng Nghymru.

(Lluniau Paul Read Photography)

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

**Gofalaeth y Garn, Gogledd Ceredigion**

**Yn sgil ymddeoliad y gweinidog presennol ddiwedd Awst 2024, mae eglwysi'r ofalaeth uchod yn awyddus i alw gweinidog.**

**Gwahoddir gweinidogion ordeiniedig neu rai dan hyfforddiant i gysylltu am ragor o fanylion ag Ysgrifenyddion y Pwyllgor Bugeiliol:**


Yr Athro Gruffydd Aled Williams:
e-bost: gawilliams1@btinternet.com;
ffôn: 01970 820664;

Marian Beech Hughes –
e-bost: marian_hughes@btinternet.com;
ymholiadau@capelygarn.org;
ffôn: 01970 828662/ 07863 127448

erbyn 31 Gorffennaf 2024

# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**




**Pennod 29**
**Eglwys mewn caffi**

### Darlleniad – Marc 8:1–8

### Gweddi
Arglwydd Iesu, cofiwn i ti gerdded y priffyrdd a'r caeau gan godi sgwrs gyda phwy bynnag oedd yn y cylch. Maddau i ni am ffurfioli dy eglwys ar draul colli ei chymdeithas. Agor ein meddyliau o'r newydd i feddwl beth sy'n angenrheidiol ac yn hanfodol i addoliad a chenhadaeth eglwys. Amen.

### Cyflwyniad
Cawsom ein magu i feddwl am eglwys yng nghyd-destun adeilad a lleoliad, gyda threfn y gwasanaeth yn gyfarwydd a chymharol ffurfiol. Bydd yr hanesion am borthi'r tyrfaoedd yn ein hatgoffa am sawl sefyllfa lle ceid barbeciw, gyda llawer o bobl yn derbyn lluniaeth hwylus. Bydd y syniad o gynnig bwyd yn fodd cyfleus i sôn am ymborth nefol. Sut gallwn ddychmygu eglwys heb adeilad, neu'n cyfarfod mewn adeilad nad yw'n debyg i'r adeiladau sydd gennym ledled gwlad a byd?

Yn Llyfr yr Actau, roedd Paul yn teithio ac yn debygol o chwilio am synagog Iddewig, gan wybod y byddai'n gyfarwydd â ffurf y gwasanaeth yno ac y byddai'r gynulleidfa'n deall iaith crefydd. Rhan o lwyddiant cenhadaeth Paul oedd ei fod yn ddigon cartrefol i godi testun i draethu arno unrhyw bryd ac mewn unrhyw le. Yn Actau 17 roedd wedi gweld ei gyfle wrth yr allor i'r Duw nad oedd pobl yn ei adnabod. Yn ystod ei ymweliad â Philipi bu'n sefyll ar lan yr afon gan y gwyddai fod rhai'n cyfarfod mewn lle felly er mwyn gweddïo. Dyna sut y daeth o hyd i Lydia, y werthwraig porffor. Pe byddem yn mynd i ddinas ddieithr fel cenhadon heddiw, a heb syniad o ddaearyddiaeth y lle, ble byddem yn debygol o ddod o hyd i bobl y gallem fod yn dechrau sgwrs gyda hwy – mewn siop, maes chwarae i blant, caffi neu ar lan afon? Wrth gwrs fod unrhyw beth yn bosibl, ond byddai man hamdden a chwilio am bobl ag amser i sgwrsio yn gam synhwyrol. Dyna a wnaeth Paul a'i ffrindiau, gan ddod o hyd i Lydia a nifer o wragedd, a dyna ddechrau sefydlu Eglwys Philipi.

### Myfyrdod
Un o'r termau diweddar wrth sôn am genhadaeth yr eglwys yw 'eglwys ar y stryd' neu 'eglwys gaffi'. Mae nifer o eglwysi fel eglwys yr All Nations yn Cathays, Caerdydd, sydd â chaffi yn y brif stryd. Ceir enghraifft arall yn Rhiwbeina, ac ar draws Prydain mae nifer helaeth o gynlluniau lle mae'r oedfa mewn capel yn fwy anffurfiol hyd at fod yn ddi-ffurf, neu fod eglwys yn llogi caffi a chynnal oedfa llai ffurfiol yno. Bu arbrofi yn Nhyddewi dan arweiniad y Parch. Geraint Michael a'i wraig, Ffiona, yn chwilio am gyfarfod â'r cyhoedd ble bynnag y maent. Mae'r Eglwys Fethodistaidd yn St Ives yn cynnal oedfa anffurfiol unwaith y mis, gan osod seddi'r addoldy'n debycach i gaffi na rhesi eistedd ffurfiol. Ceir adroddiadau am fentro gwahanol yn Ealing, Llundain, Stoke-on-Trent a Copenhagen yn Denmarc, a chynnig enghreifftiau o fenter a llwyddiant.

Nodwedd gyson yr ymdrechion hyn yw osgoi ffurfioldeb a threfn, ond yn hytrach pwyso ar ymateb agored wrth sgwrsio am faterion ffydd. Mae'n debyg y byddai'r mwyafrif ohonom yn ansicr o oedfa mor anffurfiol â hynny, ond beth am ein cyfeillion heb lawer o grefydd nad ydynt yn ymateb i'n cymhellion i ddod i oedfa? A fyddent yn ei gweld yn haws i alw heibio mewn eglwys gaffi a phrofi addoliad ystwythach ei drefniadaeth? Mewn mannau felly, bydd yna rywun neu rywrai i arwain y digwyddiad, a byddai angen rhywbeth Beiblaidd i'w rannu a cherddoriaeth addoliad, mae'n siŵr. Sonnir yn aml am adeiladu maestrefi newydd yng Nghaerdydd, a phe bai'r fath gorff â Chyngor Eglwysi Caerdydd yn bodoli, ac i Gyngor y Ddinas gynnig llain o dir i bwrpas codi adeilad ar gyfer addoliad a chenhadaeth y Cristnogion, beth fyddem am ei weld yno? Faint o gydweithio fyddai rhwng yr enwadau ac ai adeilad capelaidd fyddai ein dewis ni, ynteu rhywbeth cwbl wahanol? Byddem yn falch o glywed eich sylwadau!

### Gweddi
Nefol Dad, yn ein myfyrdod heddiw cyffeswn ein bod yn or-barod i ymddiried yn ein trefniadaeth gyfarwydd, heb feddwl bod hyn yn ddieithr ac anghyfforddus i eraill. Agor ein meddyliau i ddychmygu addasu ein hunain i gyflawni dy gomisiwn i fynd allan i'r byd a rhannu'r newyddion am Iesu â'r sawl sy'n anwybodus a diddeall o'r Efengyl. Amen.

### Cwestiynau i'w hystyried
1. Ai cyfundrefn ffurfiol neu anffurfiol yw eglwys, ac a ydym yn gorbwysleisio'r drefn ddynol heb ddeall y drefn ysbrydol?
2. Roedd y dyrfa yn hanes Marc 8 yn ymwybodol eu bod wedi blino ac yn llwgu, ond pa fath o flinder sy'n nodweddu ein cymunedau ni, a beth yn union yw natur 'llwgu'?
3. A welwn y cyswllt rhwng darparu 'banc bwyd' ac estyn 'Bara'r Bywyd' i eraill?
4. A fydd gweld colli adeiladau traddodiadol addoliad yn agor drysau i adeiladu eglwysi o bobl anghenus y byd?
5. Beth rydym yn ei gynnig i'r rhai llwglyd fel eu bod yn cael eu digoni?

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 23 Mehefin, am 7:30yh**

Bydd Nia Roberts yng nghefn gwlad Ceredigion, sir nawdd y Sioe Frenhinol eleni, i weld y gwaith paratoi at yr wythnos fawr yn Llanelwedd. Ymhlith ei gwesteion bydd Llywydd Sioe'r Cardis, Denley Jenkins. Daw'r canu mawl o Gapel Glynarthen yng nghalon y sir.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 23 Mehefin, am 7:30yb a 16:30yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Sian Thomas

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 23 Mehefin, am 12yp**

Oedfa arbennig i wrandawyr Radio Cymru

# PRYDER MAWR AM HIL-LADDIAD YN SWDAN

Mae Cymdeithas y Cymod, yr elusen Gymreig sy'n gweithio dros heddwch, yn galw am ymyrraeth ryngwladol i gefnogi pobl ddiniwed Swdan. Mae argyfwng dyngarol arswydus yn datblygu yn Swdan ar hyn o bryd, ond mae sylw'r byd yn absennol yno. Mae miliynau'n dioddef, ac mae angen ymyrraeth ar frys. Mae Swdan yn profi ton newydd, frawychus o drais creulon, a honno'n bennaf wedi'i sbarduno gan densiynau ers amser maith dros adnoddau rhwng cymunedau ffermio nad ydynt yn Arabaidd, fel y Massalit, a chymunedau bugeiliol Arabaidd. Yn ôl Human Rights Watch, mae lluoedd parafilwrol y Rapid Air Forces (RAF) a'u cefnogwyr Arabaidd wedi bod yn gyfrifol am droseddau yn erbyn y ddynoliaeth mewn perthynas â'r Massalit a chymunedau an-Arabaidd eraill. Mae'r ystadegau'n frawychus:

- mae o leiaf 14,700 o bobl wedi colli eu bywydau;
- mae bron 25 miliwn o bobl, dros hanner poblogaeth Swdan, angen cymorth ar frys;
- mae dros 8 miliwn o bobl wedi cael eu dadleoli.

Mae'r sefyllfa'n gwaethygu o ddydd i ddydd. Mae plant yn llwgu mewn gwersylloedd dadleoli lle mae newyn yn rhemp a lle nad yw cymorth i achub bywydau yn cyrraedd y rhai sydd ei angen. Yn ogystal â hynny, mae rhybudd bod y rhai sy'n llywio'r hil-laddiad yn dwysáu eu hymgyrchoedd creulon. Rhaid i'r gymuned ryngwladol weithredu ar unwaith i atal y llif o arfau a gweithredu sancsiynau ar y rhai sy'n gyfrifol am yr erchyllterau hyn.

**Dinistrio cymunedau cyfan**

Mae dylanwadau allanol yn dwysáu cymhlethdod y gwrthdaro: mae'r Emiraethau Arabaidd Unedig (UAE) yn cefnogi'r RAF, wrth i Iran a'r Aifft gefnogi'r Cadfridog Burhan. Ac mae Rwsia fel petai'n cefnogi'r ddwy ochr, gan ychwanegu at y cynnwrf. Yn rhanbarth Darfur, yn enwedig yn El Fasher, mae'r arswyd yn glir. Mae dynion, menywod a phlant wedi cael eu lladd yn ddidrugaredd, mae menywod a merched wedi dioddef trais rhywiol, ac mae cymunedau cyfan wedi cael eu dinistrio. Mae hil-laddiad yn digwydd yn Darfur eto – dim ond dau ddegawd wedi i'r erchyllterau blaenorol yno beri arswyd ledled y byd. Does dim amser i'w wastraffu; mae pobl Swdan angen cymorth. Mae ymyrraeth ryngwladol yn hanfodol er mwyn rhwystro rhagor o ladd a sicrhau bod heddwch a diogelwch yn dychwelyd i'r rhanbarth.

Dyma ddeiseb Amnest Rhyngwladol: www.amnesty.org/en/petition/demand-an-arms-embargo-in-sudan




# TRAFOD DYFODOL *Y TYST*




*Ers dros 150 o flynyddoedd* Y Tyst *fu wythnosolyn yr Annibynwyr Cymraeg. Fel pob papur arall yn ein hoes ddigidol, mae'r cylchrediad wedi syrthio'n gyson, gan fynd law yn llaw â'r gostyngiad yn nifer aelodau ei heglwysi hefyd. Erbyn hyn, tua 400 o gopïau sy'n cael eu gwerthu. O dderbyn y fformiwla gyffredinol bod dau neu dri yn darllen pob papur newydd, mae hynny'n golygu bod tua 1,000 ohonoch yn darllen* Y Tyst *bob wythnos. Mae'r erthygl hon yw rhoi manylion am ein sefyllfa a gofyn am eich sylwadau, os gwelwch yn dda.*

**Y cefndir ariannol**

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg sy'n cyhoeddi'r *Tyst* ac yn trefnu ei ddosbarthu. Mae cyhoeddi papur wythnosol yn un o'r gweithgarwch a nodir yn y Ddogfen Lywodraethol sy'n datgan pwrpas elusennol yr Undeb. Ond mae'r gostyngiad yn y cylchrediad a cholled ariannol blynyddol *Y Tyst* o £36,000 yn achosi pryder. Fel elusen, mae'r Undeb yn dibynnu ar gyfraniadau'r eglwysi ac aelodau unigol, ond yn bennaf ar yr elw ddaw bob blwyddyn o'i fuddsoddiadau sylweddol. Mae mantolen diwedd 2022 yn dangos bod gan yr Undeb dros filiwn o bunnau ar gyfer cyllido ei holl weithgarwch amrywiol y flwyddyn honno, ond rhaid i'r elusen gyfiawnhau effeithlonrwydd ei wariant. Awgrymwyd bod cynnal *Y Tyst* fel papur wythnosol yn aneffeithiol, a dechreuwyd y broses o adolygu ei ddyfodol ac ystyried opsiynau eraill.

**Y cyd-destun cydenwadol**

Yn ogystal â thrafodaethau o fewn yr Undeb, bu sgwrsio anffurfiol gyda'r ddau enwad Anghydffurfiol Cymreig arall, sy'n





cyhoeddi'r wythnosolyn *Cenn@d*. Dyma olynydd *Seren Cymru*, papur a gyhoeddwyd gynt gan Undeb y Bedyddwyr, a'r *Goleuad*, sef papur Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Er bod rhai copïau papur yn cael eu hargraffu, mae symudiad i gyhoeddi *Cenn@d* ar y we yn unig.

*parhad ar y dudalen nesaf*

# Golygyddol

Ddyddiau cyn y digwyddiadau mawr yn Normandy i goffau D-Day, bu farw un o ddiwinyddion mwyaf dylanwadol ein hoes, a oedd yn filwr ifanc ym myddin yr Almaen yn ystod y cyfnod duaf hwnnw yn hanes dynoliaeth. Cafodd Jürgen Moltmann ei eni yn 1926 yn Hamburg a'i fagu mewn cyfnod pan oedd Natsïaidd a chasineb tuag at Iddewon yn ysgubo'r wlad. Cofiai am weinidog yn mynnu mai dyn gwyn, nid Iddew, oedd Iesu Grist.





**Dianc o uffern y storm dân**

Yn 16 oed cafodd ei orfodi i ymuno â'r fyddin, a chael ei hun ynghanol y bomio anferth gan awyrennau Prydain ac America ar ddinas Hamburg, lle lladdwyd 40,000 o bobl mewn wythnos. Fe greodd y bomio 'storm dân' gan amlosgi miloedd o bobl gyffredin yn fyw gan adael dim ond tipiau llwch yn weddill. Er iddo gael ei lorio gan ffrwydrad, llwyddodd Moltmann i ddianc o'r tân o'i gwmpas trwy arnofio i ddiogelwch ar ddarn o bren ar lyn cyfagos. 'Y noson honno, fe wnes i alw ar Dduw am y tro cyntaf yn fy mywyd,' meddai, gan holi, 'Ble mae Duw?'

**Y cwestiwn mawr**

Fe dreuliodd Jürgen Moltmann (*yn y llun*) weddill ei oes hir o 98 mlynedd yn ystyried yr ateb i'r cwestiwn mawr yna. Yn gyntaf fel carcharor rhyfel ym Mhrydain, lle deimlodd bod geiriau Iesu ar y groes 'Fy Nuw, fy Nuw, paham yr wyt wedi fy ngadael?' (Marc 15:34) yn berthnasol i'w gyflwr yntau, ac yna fel myfyriwr ac athro prifysgol yn yr Almaen. Yn awdur 40 o lyfrau sydd ar gael mewn 65 iaith, cafodd *The Theology of Hope* a *The Crucified God* ddylanwad anferth ar agweddau Cristnogol yr 20fed ganrif.



**Byw mewn gobaith**

Mynna Jürgen Moltmann nad yw Duw yn barnu dynoliaeth, ond yn cyd-ddioddef gyda ni. A rhyw ddydd fe fydd yn rhoi diwedd ar ddioddefaint pawb, nid yr ychydig detholedig yn unig. Er bod y gobaith yna dros y gorwel, mae'n obaith real i fyd sydd wedi colli golwg ar orwelion y dyfodol. Dyna'r gobaith sy'n galluogi person i fyw yn hapus yn y presennol, gan gredu mai pendraw hanes fydd cyflwr lle bydd Duw ym mhopeth a phopeth yn Nuw.

**Her y Duw croeshoeliedig**

Mae'r cwestiwn 'Fy Nuw, fy Nuw, paham yr wyt wedi fy ngadael?' yn her i bob Cristion, meddai Moltmann. Mae'r groes yn hollol ganolog iddo fe fel arwydd o gariad Duw y Creawdwr tuag at ei greaduriaid pechadurus. Dioddefaint a marwolaeth Crist yw uchafbwynt y ffydd Gristnogol, sy'n amlygu empathi Duw gyda phawb ohonom yn ein dioddefaint ninnau o bob math. 'Trwy gael ei adael gan Dduw, mae'r Crist croeshoeliedig yn dwyn Duw i'r rhai hynny sy'n teimlo bod Duw wedi eu gadael hwy.'

**Lle mae Duw nawr?**

Ynghanol trawma personol, neu o weld y pethau ofnadwy sy'n digwydd yn y byd, boed yn rhyfeloedd neu'n drychinebau naturiol, mae llawer yn holi, 'Pam fod Duw yn gadael i hyn ddigwydd?' Neu, yn achos anffyddwyr, a'r rhai sy'n gwawdio'r syniad o Dduw, 'Ble mae eich Duw chi nawr?' Fe allwn ni, fel Jürgen Moltmann, droi a phwyntio at Grist ar y groes, a dweud, 'Dacw chi ble mae ein Duw ni, yr hwn ddaeth i'w fyd yn Iesu o Nasareth, i gyd-ddioddef gyda ni.' Dioddefaint Crist yw ffordd Duw o ymyrryd yn anobaith dynoliaeth, gan gymryd hynny arno'i hun, a rhoi i ni obaith byw yn ei le. Yng ngeiriau Moltmann: 'Mae Duw yn wylo gyda ni er mwyn i ni, rhyw ddydd, gael chwerthin gyda fe.'

**Alun Lenny**

## TRAFOD DYFODOL *Y TYST* - *parhad*

**Argaeledd digidol**

Rydym yn byw trwy gyfnod o newid sylfaenol – y chwyldro digidol sydd, mewn amryw ffyrdd mawr a mân, yn cyffwrdd â'n bywydau ni i gyd. Ers tro bellach, mae'r *Tyst* ar gael i'w ddarllen ar y we, ac ar gael yn rhad ac am ddim i'r sawl sydd am ei ddarllen yn y modd hwn.

**HOLIADUR I CHI'R DARLLENYDD**

- Pa mor bwysig yw hi eich bod chi'n derbyn *Y Tyst* fel papur wythnosol?
- Os ydych yn cytuno, pam hynny?
- Ydych chi'n credu bod e'n werth y gost i'r Undeb?
- A fyddech chi'n medru, neu'n barod, i'w ddarllen ar y we yn unig?
- A fyddech chi'n fodlon gweld *Y Tyst* yn dod i ben, gyda'r deunydd yn cael ei gynnwys yn Cenn@d?

Mae croeso i chi anfon eich adborth at tyst@annibynwyr.cymru neu drwy'r post at: Golygydd *Y Tyst*, d/o Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glan yr Afon, Abertawe SA7 0AJ.



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Rhaglen y Cyfarfodydd Blynyddol Cyfundeb Dwyrain Morgannwg 2024

*Oni nodir yn wahanol, cynhelir y cyfarfodydd ar gampws Prifysgol De Cymru, Trefforest, Pontypridd*

## DYDD IAU, 11 Gorffennaf 2024

**1.30 CYNHADLEDD 1 ***
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Jeff Williams
Defosiwn yng ngofal y Parchg Owain Llŷr Evans

**2.00** Ymddiheuriadau am absenoldeb
Cyflwyno Adroddiad Undeb Dwyrain Dinbych a Fflint 2023 (*y Llyfr Gwyrdd*)
Croesawu Cyfarfodydd Blynyddol 2025 Cyfundeb Llŷn ac Eifionydd
Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol *

**3.00** Te a chacen a chroeso
Croesawu a derbyn ymwelwyr

**4.00 Cyfarfod Heddwch ***
Parchg Ron Williams: 'Llais o Fethlehem'
Cadeirydd: Parchg Guto Prys ap Gwynfor

**5.30** Egwyl

**6.00** Swper

**7.30 Noson yng nghwmni Delwyn Siôn a chyfeillion ***

## DYDD SADWRN, 13 Gorffennaf 2024

**9.30** Defosiwn yng ngofal Mr Emlyn Davies *

**10.00 Cyflwyniad eglwysi ***
Llanfair Pen-rhys, Tabernacl Efailisaf a'r Angor Grangetown

**11.00** Te/coffi

**11.30 CYNHADLEDD 4 ***
Cadeirydd: Mr Dafydd Roberts
Emyn
Defosiwn: Parchg Noel Davies
Casgliad i Gymorth Cristnogol
Anerchiad y Llywydd
Emyn
Y Fendith

**12.30** Cinio ac ymadael

*Dangosir cyflwyniadau Cwpan Denman yn ystod y cynadleddau*
** Caiff y sesiynau hyn eu ffrydio'n fyw ar wefan annibynwyr.cymru*

## DYDD GWENER, 12 Gorffennaf 2024

**9.30 CYNHADLEDD 2 ***
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Jeff Williams
Defosiwn yng ngofal y Parchg Owain Llŷr Evans

**10.00** Etholiadau:
- 2 i wasanaethu ar y Cyngor am 3 blynedd
- Hyd at 3 i wasanaethu ar y Pwyllgor Gweinyddol am 3 blynedd
- cyfreithiwr ac archwiliwr am y flwyddyn

Adroddiad y Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau *
Y Cyfansoddiad
Apêl Ffynhonnau Byw Cymorth Cristnogol – diweddariad

**11.00** Te/coffi

**11.30** Adroddiad y Cyngor a'i Adrannau

**12.00** Anerchiad gan Parchg Susan Durber, Llywydd Cyngor Eglwysi'r Byd *
*'Faith, unity and mission in Wales 2025: encouragement from Nicaea 325'*
Cadeirydd: Parchg Jeff Williams

**1.00** Cinio

**2.00 CYNHADLEDD 3**
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Jeff Williams
Adroddiad y Pwyllgor Gweinyddol
Penderfyniadau:
Penderfyniad 1: Swyddog i ddarparu arweiniad a chymorth ymarferol
Adroddiad y Trysorydd
Derbyn gweddill cofnodion y *Llyfr Glas*
Cydnabod gwasanaeth y cyn Ysgrifennydd Gweinyddol, Miss E. Ann Williams a'r cyn Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Wasg, Mr Alun Lenny
Unrhyw Fater Arall
Y Fendith

**3.30** Te/coffi

**4.00 Cyfarfod Hanes ***
'Cofio Wncwl Bill' sgwrs gan Richard Huws ar fywyd a gwaith Rhys Nicholas (1914–96)

**5.00** Egwyl

**5.30** Swper

**7.30 OEDFA O FAWL** yn Tabernacl, Efailisaf *
Llywydd: Parchg Jeff Williams
Galwad i addoli
Emyn
Darllen: Sian Meinir
Gweddïo: Parchg Emyr Gwyn Evans
Gweddi'r Arglwydd
Casgliad i Gymorth Cristnogol
Emyn
Coffáu'r rhai a fu farw. Gweddi: Parchg Allan Pickard
Dymuno'n dda i weinidogion a ymddeolodd
Croesawu gweinidogion newydd
Cyflwyno tystysgrifau hyfforddiant
Emyn
Pregeth: Parchg Euron Hughes
Emyn
Y Fendith

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*